

Adnewyddu

Gwybodaeth am sut i adnewyddu'ch cofrestrriad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 January 2017

Diweddariad olaf: 27 March 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/adnewyddu> am y fersiwn diweddaraf.

Image not found or type unknown



Gwybodaeth am sut i adnewyddu'ch cofrestriad a beth fydd ei angen i'ch helpu i wneud hyn. Hefyd, gwybodaeth ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu bodloni'r gofynion adnewyddu.

Pam mae angen i chi adnewyddu

Mae cofrestru am hyd at dair blynedd. Ar ôl hynny bydd angen i chi wneud cais i adnewyddu eich cofrestriad, fel arall bydd yn dod i ben a bydd eich enw yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr ac ni fyddwch yn gallu ymarfer yn gyfreithlon yng Nghymru.

Trwy gael eich cofrestru rydych yn dangos eich bod yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol trwy:

- fod â'r [cymwysterau priodol](#)
- bod yn addas i ymarfer o safbwynt corfforol a meddyliol
- bod â'r cymeriad a'r cymhwysedd cywir
- cytuno i ddilyn y [Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol](#)
- cadarnhau eich bod yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn ystod eich cyfnod cofrestru
- cadarnhau y byddwch yn ymarfer yng Nghymru yn y math o waith y gwnaethoch gais i gofrestru ar ei gyfer.

Sut i adnewyddu

Mae angen i chi adnewyddu'ch cofrestriad bob tair blynedd ar ôl dyddiad eich cofrestriad gwreiddiol. Bydd modd i chi gwblhau eich cais i adnewyddu'ch

cofrestriad ar eich [cyfrif GCCarlein](#) 86 diwrnod cyn eich dyddiad adnewyddu. Byddwn yn anfon e-bost atoch ar yr adeg hon i'ch atgoffa chi.

Os yw'ch cais yn anghyflawn mae'n rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ar goll cyn y gellir adnewyddu'ch cofrestriad.

Mae'n rhaid i chi gwblhau'ch cais o leiaf 21 diwrnod cyn eich dyddiad adnewyddu. Os nad yw'r broses adnewyddu wedi'i chwblhau 21 diwrnod cyn eich dyddiad adnewyddu, byddwn yn anfon nodyn atgoffa 'hysbysiad o fwriad i ddileu'ch enw oddi ar y Gofrestr' atoch chi a'ch cyflogwr diwethaf hysbys.

Ni allwn sicrhau y byddwn yn prosesu ceisiadau adnewyddu mewn llai na 21 diwrnod. Oni bai eich bod wedi adnewyddu, bydd eich cofrestriad yn dod i ben un diwrnod ar ôl eich dyddiad adnewyddu.

Er mwyn adnewyddu'ch cofrestriad bydd angen i chi:

- fewngofnodi i'ch [cyfrif GCCarlein](#)
- dewis 'Adnewyddu Fy Nghofrestriad' a chlicio ar 'Adnewyddu'
- bydd eich cyfrif yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym amdanoch. Byddwch yn gallu newid y wybodaeth hon
- cwblhau'r ffurflen a thalu'r ffi adnewyddu a nodir
- Cadarnhewch eich bod wedi cadw'ch hyfforddiant a'ch dysgu yn gyfredol.

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Mae'n rhaid i bob person cofrestredig (ac eithrio myfyrwyr gwaith cymdeithasol) gadw cofnod o'u DPP. Does dim angen i chi anfon tystiolaeth atom ni oni bai ein bod ni'n gofyn amdani.

Mae'n rhaid i chi drafod eich hyfforddiant a'ch dysgu yn rheolaidd gyda'ch rheolwr i sicrhau ei fod yn helpu i wella'ch darpariaeth gofal a chymorth. Bydd angen i chi gadarnhau bod hyn wedi'i wneud fel rhan o'ch adnewyddiad.

Efallai byddwn ni'n samplu cofnodion DPP, ond os byddwn yn gofyn i chi am y wybodaeth hon, byddwn yn rhoi digon o amser i chi anfon yr hyn sydd angen.

Cymeradwyo'ch cais adnewyddu

Gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol

Ni fydd angen i'r mwyafrif o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol gael eu cais adnewyddu wedi'u cymeradwyo.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

Mae'n rhaid cymeradwyo cais adnewyddu pob gweithiwr gofal cymdeithasol.

Wrth gwblhau eich cais gofynnir i chi ddewis o restr o [bobl gymeradwy \(llofnodwyr\)](#) ar gyfer eich sefydliad.

Bydd y llofnodwr yn mewngofnodi i'w gyfrif [GCCarlein](#), gweld y wybodaeth a chwblhau'r cwestiynau gofynnol.

Cofiwch fod yn rhaid i'r sawl sy'n eich cymeradwyo fod yn unigolyn proffesiynol nad yw'n perthyn i chi ac nad oes ganddo/ganddi berthynas bersonol â chi.

Os ydych yn hunangyflogedig

Os ydych yn hunangyflogedig neu os oes gennych fusnes teuluol, rhaid i chi gadarnhau bod eich hyfforddiant a'ch dysgu yn gyfredol ac yn unol â'r safonau a nodir yn y Codau Ymarfer Proffesiynol.

Darllenwch ein tudalennau canllaw am [wirio](#) a [chymeradwyo](#).

Methu bodloni gofynion adnewyddu

Gallwn ni wrthod eich cais am adnewyddu os nad ydych wedi bodloni holl ofynion cofresrtu.

Os yw'ch enw yn cael ei dynnu oddi ar [y Gofrestr](#) ni fyddwch yn gallu gweithio mewn swydd sy'n gofyn am gofrestrriad.

Mewn amgylchiadau eithriadol gallwch gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cofrestrydd yn egluro pam nad ydych wedi bodloni'r gofynion. I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno'ch datganiad ysgrifenedig, dylech e-bostio registrants@gofalcymdeithasol.cymru.

Beth sy'n digwydd os nad ydych yn adnewyddu

Os nad ydych yn adnewyddu'ch cofrestrriad, bydd eich enw yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr, sy'n golygu na fyddwch wedi'ch cofrestru'n gyfreithlon i ymarfer yng Nghymru.

Os ydych am ddychwelyd i'r Gofrestr ar ôl i'ch enw gael ei thynnu oddi arni, bydd angen i chi:

- gwblhau cais newydd ar eich [cyfrif GCCarlein](#)
- talu unrhyw ffioedd dyledus.

Gwrthod adnewyddu cofrestrriad

Os oes tystiolaeth sy'n cwestiynu addasrwydd unigolyn cofrestredig i weithio ym maes gofal cymdeithasol, gallwn [ymchwilio'n bellach ir pryder](#).

Gallwn ni wrthod cofrestru neu gallwn ni osod sancsiynau ar eu cofrestrriad, gan gynnwys:

- cyfyngiadau ar weithio
- gofynion hyfforddi
- profiad gwaith.

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).